Cynllun Darllen Efengyl Marc

Ysgrifennodd Marc am fywyd Iesu Grist am ei fod yn dymuno i'w ddarllenwyr wybod y newyddion da am Iesu ac er mwyn iddynt gredu ynddo. Doedd e ddim am aros yn dawel ynglŷn â'r newyddion anhygoel yma! Pwrpas yr astudiaethau Beiblaidd hyn yw edrych ar fywyd a marwolaeth Iesu Grist ac ystyried beth mae hynny'n ei olygu i ti.

Mae'r darlleniadau wedi eu rhannu'n 31 rhan, gyda chwestiynau ar gyfer pob diwrnod o'r mis. Efallai y bydd yn help i ti gael papur a beiro wrth law i gymryd nodiadau. Cyn darllen, gweddïa y bydd Duw yn siarad â thi ac yn dy helpu i ddeall ei Air, ac y bydd Ef yn defnyddio'r Beibl i newid dy fywyd. Ar ddiwedd pob astudiaeth mae'n bwysig iawn dy fod yn gweddïo ac yn siarad gyda Duw am beth rwyt ti wedi ei ddysgu a'r pethau rwyt ti eisiau eu newid yn dy fywyd di.

Rhan 1: Pwy yw Iesu?

Dydd 1: Marc 1:1-11

⇒ Am beth mae Efengyl Marc yn sôn? (ad. 1)
⇒ Pwy yw'r tri thyst sy'n siarad am Iesu? (ad. 2, 7, 11)
⇒ Beth maen nhw'n ei ddweud wrthym am bwy yw Iesu?

Dydd 2: Marc 1:12-39

Mae Marc yn peintio darlun i ni o Iesu, Mab Duw (fel y gwelsom ddoe) ac o'i awdurdod.

⇒ Beth mae'r hanesion yn y darn hwn yw ei ddweud wrthym am awdurdod Iesu? Dros beth mae ei awdurdod a beth mae e'n gallu ei wneud? (ad. 17, 25, 34, 39)

Dydd 3: Marc 1:40-2:12

Ddoe dysgom nifer o bethau am awdurdod Iesu.

⇒ Beth arall sydd gan Iesu'r awdurdod i'w wneud? (ad. 41, 2:5)
⇒ Pam roedd yr ysgrifenyddion yn anhapus gydag Iesu?
⇒ Beth mae'r hanes hyn yn ei ddweud wrthym am bwy oedd Iesu a'r hyn y daeth i'w wneud?

Dydd 4: Marc 2:13-17

⇒ Beth wyt ti'n meddwl bod 'dilyn Iesu' yn ei olygu heddiw?
⇒ Beth mae adnod 17 yn ei ddweud ynglŷn â'r hyn y daeth Iesu i'w wneud?
⇒ Sut mae hyn yn anogaeth i ni?

Dydd 5: Marc 2:18-3:6

⇒ Mae'r Phariseaid yn trio baglu Iesu ynglŷn â dau beth. Beth ydynt?
⇒ Pwy sy'n dod allan orau a chan bwy mae'r hygrededd mwyaf?

Dydd 6: Marc 3:7-34

⇒ Yma rydym yn dechrau gweld gwahanol safbwyntiau am Iesu'n dod i'r amlwg. Beth ydynt? (ad. 7, 21, 22)
⇒ Beth wyt ti'n ei feddwl am Iesu? Sut y gall efengyl Marc fod o help i ni wrth i ni ymateb i'r hyn mae pobl eraill yn ei feddwl am Iesu?

Llwybrau

Dydd 7: Marc 4:1-34

⇒ Beth yw'r had? (ad. 14)
⇒ Beth yw'r pedwar gwahanol fath o dir? (ad. 4-8)
⇒ Beth yw ystyr y pedwar math o dir? (ad. 15-20)
⇒ Sut mae'r ddameg hon yn help i ni wrth i ni feddwl am rannu'r efengyl gyda'n ffrindiau?

Dydd 8: Marc 4:35-5:20

⇒ Beth mae'r hanes yn adnodau 4:35-41 yn ei ddweud wrthym am awdurdod Iesu?
⇒ Sut mae'r disgyblion yn ymateb?
⇒ Beth mae'r hanes yn adnodau 5:1-20 yn ei ddweud wrthym am awdurdod Iesu?
⇒ Beth mae Iesu'n ei ddweud wrth y dyn y mae wedi'i iachau am ei wneud?
⇒ Sut y gallwn ni ddweud wrth ein ffrindiau 'cymaint y mae'r Arglwydd wedi'i wneud trosom'?

Dydd 9: Marc 5:21-43

Mae'r hanes hwn yn dangos i ni fod gan Iesu awdurdod dros farwolaeth hyd yn oed!

⇒ Beth sy'n dy daro ynglŷn ag Iesu a'r ffordd y mae'n delio â phobl yn yr hanesion hyn?
⇒ Sut maen nhw'n ymateb iddo? (ad. 34, 36)

Dydd 10: Marc 6:1-29

Er gwaethaf dysgeidiaeth a gweithredoedd da Iesu, nid yw pawb yn ymateb yn gadarnhaol iddo.

⇒ Beth oedd yr ymateb yn ei dref enedigol? (ad. 1-6)
⇒ Ydyn ni'n adnabod pobl sy'n gwrthod Iesu? Pam maent yn gwneud felly?
⇒ Yn adnodau 14-29 rydym yn darllen am Ioan Fedyddiwr – beth sy'n digwydd?
⇒ Beth mae'r ddau hanes yma'n eu dweud wrthym am yr hyn y gallwn ni ei ddisgwyl fel dilynwyr Iesu?

Dydd 11: Marc 6:30-56

Yma rydym yn gweld rhagor o wyrthiau ffantastig, ond rydym hefyd yn dysgu rhywbeth ynglŷn ag Iesu ei hunan.

⇒ Beth ydyn ni'n ei ddysgu am Iesu? (ad. 34, 46, 56)
⇒ Oedd y disgyblion wedi deall yn llawn pwy oedd Iesu a pham yr oedd wedi dod? (ad. 50-52).

Dydd 12: Marc 7:1-37

⇒ Pam wnaeth Iesu feirniadu'r Phariseaid? (ad. 6-13)
⇒ Sut mae adnodau 14-23 yn help i ni ddeall beirniadaeth Iesu o'r Phariseaid?
⇒ O ble oedd y ddynes wnaeth Iesu'i chyfarfod yn adnod 26 yn dod?
⇒ Sut mae ei hymateb hi'n cymharu ag ymateb y disgyblion yn y penodau blaenorol a chydag ymateb y Phariseaid? Pwy fyddet ti'n disgwyl byddai wedi credu fwyaf yn Iesu?
⇒ Ydyn ni'n araf weithiau i ddeall ac i roi ein ffydd yn Iesu? Sut mae ffydd y wraig yn ein herio ni?

Dydd 13: Marc 8:1-21

Mae hwn yn hanes enwog yr ydym yn gyfarwydd iawn ag ef.

⇒ Beth sy'n dy daro o'r newydd wrth i ti ei ddarllen?
⇒ Beth sy'n cael ei ddweud am awdurdod Iesu ac am bwy oedd e?

Llwybrau

Rhan 2: Pam ddaeth Iesu?

Mae pennod 8 yn drobwynt yn Efengyl Marc. Mae Iesu'n troi tuag at Jerwsalem ac yn cychwyn ar ei daith tua'r groes. Mae'n amlwg bod Marc yn teimlo mai marwolaeth Iesu yw'r peth pwysicaf am ei fywyd – mae hanner cyntaf yr efengyl yn delio â 3 blynedd, a'r ail hanner â chyfnod byr iawn! Yn yr hanner cyntaf mae Marc yn canolbwyntio ar bwy yw Iesu, ac mae'n cyrraedd uchafbwynt gyda datganiad dramatig Pedr yn adnod 29 o bennod 8. Mae ail hanner yr efengyl yn canolbwyntio ar pam ddaeth Iesu ac ar ei farwolaeth ar y groes.

Dydd 14: Marc 8:22-9:1

⇒ Beth oedd yn wahanol ac yn anghyffredin ynglŷn ag iachâd y dyn dall ym Mhethsaida?

Mae Marc yn dweud rhywbeth wrthym am yr hyn roedd y disgyblion yn ei ddeall ynglŷn â phwy oedd Iesu. Roeddent yn araf i ddeall ac i gredu (yn gweld dim ond y coed yn hytrach na gweld yn glir), ond mae dipyn o drobwynt yma.

⇒ Beth oedd ateb Pedr i gwestiwn Iesu? (ad. 29)

⇒ Er gwaethaf hyn, beth mae adnodau 31-33 yn eu dweud wrthym ynglŷn â'r hyn nad yw Pedr wedi'i ddeall am Iesu ac am pam roedd e wedi dod?

⇒ Beth mae adnodau 34-38 yn eu dweud wrthym am y bywyd Cristnogol?

Dydd 15: Marc 9:2-13

Dychmyga taw ti oedd Pedr, Iago neu Ioan.

⇒ Beth fyddet wedi ei weld?

⇒ Sut fyddet wedi teimlo?

⇒ Beth mae'r hanes hwn yn ei ddweud wrthym am Iesu?

Dydd 16: Marc 9:14-29

⇒ Beth mae'r hanes hwn yn ei ddweud wrthym am ffydd?

⇒ Beth sy'n cyfrif mwyaf – faint o ffydd sydd gennym neu ym mhwy y mae ein ffydd? (ad. 24)

Dydd 17: Marc 9:30-50

Unwaith eto mae Iesu yn sôn wrth y disgyblion am ei farwolaeth.

⇒ Sut maen nhw'n ymateb?

⇒ Beth sy'n syndod ynglŷn ag ymddygiad y disgyblion yn adnodau 33-37 yn wyneb yr hyn roedd Iesu newydd fod yn ei ddweud wrthynt?

⇒ Beth mae adnodau 42-50 yn ei ddweud wrthym am ddifrifoldeb pechod?

Dydd 18: Marc 10:1-31

Roedd cadw gorchmynion Duw yn beth pwysig iawn i'r bobl yn y cyfnod hwn. Ond roedd gan Iesu fwy o ddiddordeb yn y galon nag yn yr hyn roedd y bobl yn ei wneud yn allanol.

⇒ Beth ydyn ni'n ei ddysgu o hanes y dyn ifanc cyfoethog?

Dydd 19: Marc 10:32-52

Unwaith eto mae Iesu'n sôn wrth y disgyblion am ei farwolaeth yn adnodau 32-34.

⇒ Beth sy'n syndod ynglŷn ag ymddygiad y disgyblion yn adnodau 35-45 yn wyneb yr hyn roedd Iesu newydd fod yn ei ddweud wrthynt? (Yw hyn yn dy atgoffa am astudiaeth echdoe?)

⇒ Beth yw'r esiampl fwyaf o beth mae'n ei olygu i fod yn was? (ad. 45)

Treulia beth amser yn diolch i Dduw am Iesu ac am yr hyn mae wedi'i wneud drosot.

Dydd 20: Marc 11:1-11

⇒ Hanes cyfarwydd iawn eto: ond pam mae Iesu'n troi i gyfeiriad Jerwsalem?
⇒ Sut mae'r tyrfaoedd yn ymateb iddo yn yr hanes hwn?

Dydd 21: Marc 11:12-33

⇒ Sut mae'r hanesion am y ffigysbren ac am y deml yn ein synnu?
⇒ Ydi hyn yn cyd-fynd â'n barn ni am Iesu?
⇒ Rydym wedi clywed llawer am awdurdod Iesu yn Efengyl Marc. Roedd rhai yn ceisio herio awdurdod Iesu – i ba raddau wnaethon nhw lwyddo? (ad. 27-33)

Dydd 22: Marc 12:1-44

Mae'r tenantiaid yn cynrychioli'r Iddewon yn y ddameg hon. Trwy gydol Efengyl Marc rydym wedi gweld sut roedd rhai ohonynt yn beirniadu ac yn cwestiynu Iesu.

⇒ Beth mae'r ddameg yn ei ddweud wrthym am sut mae Duw'n ymateb i'w gwrthodiad o berchennog y winllan? (ad. 9-11)

Unwaith eto (ad. 13-14) maent yn trio baglu Iesu a thanseilio ei ddysgeidiaeth a'i awdurdod.

⇒ Am ba ddau beth maent yn gofyn i Iesu? (ad. 13-17 ac ad. 18-27)
⇒ Beth yw ymateb Iesu a phwy sy'n cael y llaw uchaf?
⇒ Sut mae offrwm y wraig yn adnodau 41-44 yn her i ni?

Dydd 23: Marc 13:1-37

⇒ Beth mae Iesu'n ei ddweud wrth y disgyblion am y dyfodol yma?
⇒ Pa gysur sydd i'w gael yn yr adnodau hyn? (ad. 7, 11, 13, 23, 26- 27, 31)

Dydd 24: Marc 14:1-11

⇒ Sut mae Iesu'n ymateb i'r hyn mae'r wraig yn ei wneud drosto? (ad. 6-7)
⇒ Pa ymateb arall, gwrthgyferbyniol, sydd i'w weld yma? (ad. 4-5)
⇒ Beth oedd y peth pwysicaf i'r wraig?
⇒ Beth oedd y peth pwysicaf i Jiwdas Iscariot? (ad. 10-11)

Dydd 25: Marc 14:12-31

⇒ Beth sy'n digwydd yma a pham fod Swper yr Arglwydd mor bwysig i Gristnogion heddiw?
⇒ Beth mae Iesu'n ei ragweld am y disgyblion?

Dydd 26: Marc 14:32-72

⇒ Beth oedd y 'cwpan' roedd yn rhaid i Iesu ei yfed?
⇒ Sut mae'r hanes hwn yn help i ni ddeall rhywfaint ar y dioddef roedd Iesu'n mynd i'w wynebu ar ein rhan?
⇒ Sut mae Iesu'n ymateb hyd yn oed o dan yr amgylchiadau ofnadwy hyn? (ad. 48-49, 61-62)
⇒ Beth wnaeth y disgyblion? (ad. 50-52, 54, 66-72)

Dydd 27: Marc 15:1-20

Roedd gan lawer o bobl ran ym marwolaeth Iesu.

⇒ Beth oedd rhai o'r rhesymau y tu ôl i'r hyn ddigwyddodd? (ad. 10, 11, 14-15)

Rydym wedi bod yn dysgu drwy Efengyl Marc am awdurdod a chryfder Iesu – gallai fod wedi dianc o'r sefyllfa hon ar unrhyw adeg.

⇒ Pa resymau eraill sydd y tu ôl i'r hyn ddigwyddodd?

Dydd 28: Marc 15:21-41

Mae Marc yn tynnu ein sylw at nifer o bethau sy'n egluro rhywfaint ar yr hyn sy'n digwydd ar y groes. Nid dienyddiad dyn cyffredin oedd hyn yn unig – roedd rhywbeth llawer mwy yn digwydd.

⇒ Beth mae adnod 33 a geiriau Iesu yn adnod 34 yn eu dweud wrthym am yr hyn sy'n digwydd i Iesu ar y groes? *(mae tywyllwch yn y Beibl yn arwydd o farn Duw)*

⇒ Beth mae adnod 38 yn ddweud am yr hyn ddigwyddodd ar y groes? *(Roedd llen y deml yn arwydd o'r gwahanu sy'n digwydd rhwng dyn a Duw oherwydd y pethau dy ni wedi neud yn anghywir, yn ei erbyn ef)*

Dydd 29: Marc 15:21-41

Heddiw rydym yn mynd i edrych ar yr un darn a ddoe, ond o ongl wahanol.

⇒ Sut roedd y gwahanol bobl oedd o gwmpas Iesu ar y groes yn ymateb?
  ⇒ Y milwyr (ad. 24)
  ⇒ Y rhai oedd yn pasio heibio (ad. 29-30)
  ⇒ Y prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion (ad. 31-32a)
  ⇒ Y dynion oedd yn cael eu croeshoelio gydag ef (adnod 32b)
  ⇒ Y canwriad (adnod 39)

⇒ Beth yw dy ymateb ti?

Dydd 30: Marc 15:42-16:13

⇒ Pa syndod oedd yn disgwyl am y merched wrth iddyn nhw ddod at fedd Iesu?

⇒ Sut wnaethon nhw ymateb?

⇒ Sut wnaeth y disgyblion ymateb?

Mae'r efengylau eraill yn rhoi llawer mwy o fanylion ac o dystiolaeth am atgyfodiad Iesu. Ond mae pwyslais Marc yn ymddangos yn wahanol – mae ef am ein herio ni ynglŷn â'n hymateb ni i'r Iesu byw.

Dydd 31: Marc 16:14-20

⇒ Beth oedd gwaith y disgyblion ar ôl i Iesu esgyn i'r nefoedd?

⇒ Beth yw ein gwaith ni heddiw fel rhan o eglwys Iesu?

Wel, dyma ni wedi cyrraedd diwedd efengyl Marc!
Sut mae Marc wedi dy helpu i ddeall mwy am bwy yw Iesu ac am pam y daeth ef i'r byd?
Oes oes gen ti unrhyw gwestiynau sy'n codi o'r hyn rwyt wedi'i ddarllen dros y wythnosau diwethaf, beth am roi gwybod i ni? Ebostia neges@llwybrau.org neu defnyddia'r ddolen ar dop ein gwefan – www.llwybrau.org

Llwybrau